

Llyfr Adnoddau 'Myfi yw'r Bugail Da'

I ddod.

Yn fuan.

Gan Is-bwyllgor y Chworiydd....

Bydd llawer ohonoch wedi defnyddio ein llyfrau *Thema* dros y blyneddau diwethaf, ac yn gwybod pa mor werthfawr ydynt. Yn llawn erthyglau a syniadau i'n hannog yn ein ffydd a'n cerddeddiad gyda Duw, fe'u hysgrifennwyd yn arbennig ar gyfer merched ein heglwysy gan Carys a Sarah, gweithwyr Dorcas.

Rydym mor gyffrous i roi gwybod i chi y bydd y llyfr Adnoddau hwn yn eich dwylo yn fuan – ar ôl y siom o beidio â gallu ei gwblhau a'i argraffu'r llynedd oherwydd cyfyngiadau Covid 19.

Ein thema yw'r adnoddau o loan 10:11 'Myfi yw'r Bugail Da. Y mae'r Bugail Da yn rhoi ei einioes dros y defaid.' Ychydig a wyddem pan ddewisom yr adnod hon yn thema sut y byddai angen bugeilio arnom yn ystod 2020 a 2021. Ond, gwyddai



ein Tad nefol, a hyderwn y bydd y llyfr thema hwn, o dan ei fendith, yn ein helpu i droi ato, i'w ddilyn ac i brofi ei gariad a'i ofal. Rydym wedi cynnwys astudiaethau Beibl, Gwasanaeth cyflawn, tystiolaethau ac amlinelliaid o wasanaethau amrywiol yn ogystal â diweddariadau ar ein Prosiectau Cenhadol a syniadau ar gyfer crefft.

Medrwn archebu copïau trwy gysylltu ag Eirian Roberts, yn Swyddfa'r Bala dros y ffôn neu drwy e-bost – 01678 520065, eirian.roberts@ebcpcw.cymru

Os byddwch yn e-bostio archeb, dylech gynnwys:

Enw, Cyfeiriad gyda chòd post, faint o gopïau, enw eich henaduriaeth.

Cynigir copïau yn rhad ac am ddim ond byddwn yn croesawu rhoddion tuag at y costau. Os ydych chi'n archebu copi i chi'ch hun beth am ystyried archebu ail gopi ar gyfer ffrind?

Sarah Morris

Gweddïau

Gwelsom yr wythnos diwethaf bod anogaeth i weddio dros y rhai mewn awdurdod. Heddiw parhawn i weddio am gael 'byw yn dawel a heddychlon, yn llawn duwioldeb a gwedduster.'

Arglwydd da, dirion dad, a wnei di'n llenwi yn Iesu Grist, gyda gweledigaeth amgen o'r hyn gallai'r byd fod. Rho weledigaeth o'r byd hwn na chaiff ei gaethiwo gan ein hofnau, na'n diffyg gobaith, na'n diffyg ffydd. Dyro i ni weledigaeth, a Gobaith, sy'n caniatáu i ni adnabod y dyfodol amgen: am fyd lle caiff y rhai sydd heb lais eu hamddiffyn; am fyd lle caiff tlodi ac anghyfiawnder ei ddileu; am fyd lle caiff cyfoeth y ddaear ei rannu'n deg; am fyd lle gall bobl o wahanol genhedloedd a chrefyddau dyfu mewn parch a goddefgarwch; am fyd lle caiff heddwch, wedi adeiladu ar gyfiawnder a'i gadarnhau gan dy gariad, ffynnu i'r dyfodol. Gweddïwn hyn oll drwy Iesu Grist, **Amen.**



Gweddïwn dros ysgolion, prifysgolion a cholegau ein bröydd. Gweddïwn dros y rhai sy'n sicrhau y bydd bwyd ar ein byrddau – yn siopwyr, yn weithwyr, yn ddarparwyr nwyddau a bwydydd. Gweddïwn dros y rhai sy'n bryderus am eu swyddi, dros y rhai a wnaed yn ddi-waith oherwydd yr amgylchiadau diweddar. Gweddïwn dros weithwyr mewn diwydiant, dros amaethwyr, dros ardaloedd poblog a thros gefn gwlad Cymru. Tyrd Ysbryd Glân, yn haeddiant Iesu, i gartrefu yn ein plith. **Amen.**

TEYRNGED: YR ATHRO JOHN GWYNFOR JONES

Ychydig cyn y Nadolig derbyniwyd y newyddion trist am farwolaeth yr Athro John Gwynfor Jones. Bydd darllenwyr Y Goleuad yn ymwybodol o'i gyfraniadau niferus a gwerthfawr i'r Cyfundeb dros nifer o flynyddoedd. Cyfrannodd yn gyson nifer o erthyglau i'r *Goleuad* ar unigolion a digwyddiadau amlwg yn ein hanes ni yng Nghymru a hefyd ar ein cysylltiadau ag arweinwyr y gymuned Gristnogol Ewropeaidd.

Yn frodor o Ddyffryn Conwy, wedi ei addysgu yn Ysgol Ramadeg Llanrwst, bu'n athro hanes mewn ysgolion yn y gogledd am gyfnodau byr cyn iddo ddysgu sawl cenedlaeth o fyfyrwyr yn Adrannau Hanes a Hanes Cymru Coleg y Brifysgol / Prifysgol Caerdydd ble cyflwynwyd Cadair Bersonol iddo. Cyhoeddodd nifer o astudiaethau ar hanes teulu Wynn o Wydir, gan gynnwys y gyfrol *Sir John Wynn, History of the Gwydir Family and Memoirs* (1990). Hefyd, nifer sylweddol o gyfrolau ac erthyglau ar hanes Cymru yn yr unfed ganrif ar bymtheg a'r ail ganrif ar bymtheg, gan gynnwys Cymru a'r Tuduriaid (1993); *Early modern Wales c. 1525-1640* (1994), *Crefydd a Chymdeithas yng Nghymru c.1559-1750* (2007) a *Crefydd, cenedlgarwch a'r wladwriaeth: John Penry (1563-1593) a Phiwriniaeth gynnar* (2014).

Am 45 mlynedd bu'n flaenor gweithgar a chydwybodol yn Eglwys y Crwys, Caerdydd, a chyn hynny yn Eglwys Pembroke Terrace, Caerdydd. Yr oedd ei ddyletswyddau niferus yn Eglwys y Crwys yn cynnwys ei olygyddiaeth o'r *Gadwyn*, sef cylchgrawn yr eglwys am gyfnod o 40 mlynedd, hyd at Chwefror / Mawrth 2018.

Golygwyd ganddo y gyfrol *Cofio yw Gobeithio* a gyhoeddwyd yn 1984 adeg dathlu canmlwyddiant Achos Heol y Crwys, Caerdydd. Llwyddodd ynddi yn ddiamheuol i gyflawni ei furiad i geisio 'pontio dwy ganrif a dwy gymdeithas – yr hen a'r newydd – a rhoi ar gof a chadw parhad y dystiolaeth Gristnogol a etifeddiwyd gennym ni ac eraill dros y blynyddoedd'. Yna yn 2009 bu'n olygydd *Yng ngolau ffydd; eglwys y Crwys, 1984-2009: llyfryn y dathlu 125 mlynedd*.

Cefnogodd weithgareddau'r Cyfundeb yn ne-ddwyrain Cymru dros gyfnod sylweddol, a bu'n aelod amlwg a gweithgar o Henaduriaeth Dwyrain Morgannwg, ac wedi hynny, Henaduriaeth Morgannwg-Llundain.

Cyhoeddwyd yn 2006 ei gyfrol

gynhwysfawr a sylweddol *Her y Ffydd: Ddoe, Heddiw ac Yfory', Hanes Henaduriaeth Dwyrain Morgannwg, 1876-2005*. Mynegodd ynddi'r gobaith y byddai'r gyfrol 'yn dystiolaeth i lafur ymroddedig a di-ildio gweinidogion yr Efengyl a lleygwyr ... a fu'n cadw'r fflam ynghyn dros flynyddoedd lawer'. Yn sicr yr oedd y geiriau hynny, a rhai terfynol y gyfrol, sef 'erys y gobaith y bydd y cadernid a nodwedda'i arweinwyr y gorffennol yn parhau i fod eto'n symbyliad i'r ysbryd ddyfalbarhau ac i'r weledigaeth gael ei sylweddoli' yn mynegi'n glir ei weithgarwch diflino ef i ddiogelu ac ymestyn y ffydd Gristnogol yn ne-ddwyrain Cymru.

Cafodd ei ethol yn Llywydd y Gymanfa Gyffredinol yn 2016-2017. Tra'n Llywydd, rhoddodd sylw nid yn unig i sylfeini ein treftadaeth ond hefyd i bwysigrwydd cynllunio ar gyfer y dyfodol: mae'n addas yma i gyfeirio at ei ysgrif a gyhoeddwyd ar dudalen flaen *Y Goleuad* ar 2 Medi 2016 dan y pennawd 'Edrych ymlaen; Cenhadaeth ein Heglws'. Cyhoeddwyd eto nifer o'i ysgrifau eraill yn Y Goleuad yn y flwyddyn honno.

Rhoddodd sylw arbennig i ddiogelu hanes y Cyfundeb drwy ei ddyletswyddau fel golygydd hynod effeithiol y Cylchgrawn Hanes am 16 o flynyddoedd, er 2004. Cyhoeddwyd dan ei olygyddiaeth cyfres o rifynnau hynod ddarllenadwy, yn cynnwys cyflwyniad golygyddol, erthyglau difyr, gwybodaeth am gyhoeddiadau perthnasol ac adolygiadau sylweddol gan nifer sylweddol o unigolion, gyda phob rhifyn yn trafod amrywiaeth eang o bynciau, ond gyda'r prif ffocws ar hanes y Cyfundeb.

Cyfraniad arbennig arall oedd ei weithgarwch fel cyfrannwr a golygydd y cyfrolau awdurdodol *Hanes Methodistiaeth Galfinaidd Cymru, Cyfrol III, Y Twf a'r Cadarnhau (c. 1814-1914)* (2011); a *The History of Welsh Calvinistic Methodism, III, Growth and Consolidation c. 1814-1914*, (2013); a golygydd *Hanes Methodistiaeth Galfinaidd Cymru, Cyfrol IV, Yr Ugeinfed Ganrif (c. 1914-2014)*, *Tystiolaeth Cenhadaeth a Her y Ffydd* (2017).

Cydweithiais yn agos gyda Gwynfor am nifer o flynyddoedd, yn y 1970au a'r 1980au pan oeddem, dan arweiniad yr Athro Gwynedd Pierce, yn dysgu yn y Brifysgol yng Nghaerdydd. Roedd ein hystafelloedd drws nesaf i'w gilydd, a byddem yn cyfarfod yn rheolaidd, yn dilyn ei alwad dyddiol gyda'r geiriau di-ffael 'Oes yna bobl'? Cafwyd sgysiau difyr a llon yn ystod y cyfnod hwnnw, ac

yn arbennig felly dros goffi ar fore Llun gyda nifer ohonom yn trafod digwyddiadau'r Sul, a rhai o'r cwmni, gan gynnwys Gwynfor, yn arwain oedfaon yn gyson yn addoldai'r ddinas a Chymoedd Morgannwg a Gwent.

Rhoddwyd sylw yno hefyd i'r dosbarthiadau nos a gynhaliwyd gennym yn rheolaidd mewn lleoliadau amrywiol yn ne-ddwyrain Cymru. Un o'n gweithgareddau cofiadwy yn ystod y cyfnod hwnnw oedd y teithiau blynyddol ar fws mini o amgylch de a chanolbarth a de Cymru a drefnwyd gennym ar gyfer ein myfyrwyr, gyda Gwynfor yn yrrwr a finnau yng ngofal y map, a'r ymweliad â Threfeca yn un o uchafbwyntiau'r daith. Yn ystod misoedd yr Haf mi fyddem yn cysylltu yn agos eto tra'n marcio papurau arholiadau, gyda Gwynfor yn brif Arholwr Hanes Lefel A Cydbwyllgor Addysg Cymru. Ni fedraf gofio i ni ddadlau ac anghytuno ar unrhyw adeg yn ystod y cyfnod hapus hwnnw. Hefyd, fel rhiant, gwn o brofiad am ei ymroddiad a'i ofal hynod garedig o'r myfyrwyr yn ei ddosbarthiadau yn y Coleg yng Nghaerdydd.

Parhaodd y cysylltiad rhyngom dros y blynyddoedd, ac mi fyddai'n ymweld yn achlysurol â'r Llyfrgell Genedlaethol, a hynny yn aml pan fyddai yn dod i gyfarfodydd y Cyfundeb yn Aberystwyth. O'm rhan i mi fyddwn yn darllen yn achlysurol yn Llyfrgell y Celfyddydau ac Astudiaethau Cymdeithasol Prifysgol Caerdydd, a gwerthfawrogi'r cyfleoedd i sgwrsio gyda Gwynfor wrth eistedd gydag ef, ynghanol ei gasgliad o gyfrolau niferus ar ei ford 'bersonol' ef.

Cydymdeimlwn yn ddwys gyda'r teulu, ac yn arbennig ei briod Enid, a'r plant Eryl, Gareth ac Eleri yn eu profedigaeth, a chofiw'n ddiolchgar am ei ddoniau amrywiol, ei weithgarwch helaeth a'r cyfan a gyflawnwyd ganddo.

**D. Huw Owen
Aberystwyth**

Dim ond holi

Dim ond tri chwestiwn sydd angen ei ofyn am ein ffydd.

1. Ydych chi'n caru Duw?
2. Ydych chi'n caru'ch cymydog?
3. Ydych chi'n meindio os af atynt i'w holi?

Addasiad o eiriau Haddon Robinson

Adnabod Cymeriadau'r Testament Newydd – Yr Efengylau

Cyfres o astudiaethau Beiblaidd ar gyfer y cartref neu grŵp gan y Parch. Denzil I. John

Mae testun a chyflwyniad fideo o'r deunydd hwn ar gael ar wefan y Cyngor Ysgolion Sul: https://www.ysgolsul.com/?page_id=804

Gwers 29

Yr eunuch o Ethiopia

Gweddï

Sanctaidd Dduw, gofynnwn am dy arweiniad wrth i ni ddarllen hanes Philip a'r eunuch heddiw. Byddwn yn ei chael yn anodd weithiau i roi geiriau i'n profiad ohonot wrth eraill sydd o'r un iaith a chefnidir â ni, heb ddychmygu pobl o gefndiroedd gwahanol. Agor ein calonau heddiw i ddarllen a myfyrio yn dy gwmni. Amen.

Darllen: Actau 8:26–40

Cyflwyniad

Mae'n siŵr fod sawl pregethwr wedi codi testun o'r adran hon, yn arbennig

ar achlysur oedfa bedydd trwy drochiad. Efallai fod yr eunuch wedi cael mwy o sylw na'r rhelyw o dramorwyr dienw'r Testament Newydd. Byddai Luc am gynnwys hanes Philip am ei fod yn enghraifft effeithiol o efengilydd yn rhannu ei ddealltwriaeth bersonol o berson a gwaith Iesu, ond roedd arwyddocâd hefyd i gyfeirio at ryw 'ŵr o Ethiopia', nad oes cyfeiriad arall iddo yn y Testament Newydd. Roedd yn ddyn o ddylanwad a berchid gan frenhines ei wlad, ac mae'r gweddïll a wyddys amdano yn dod o ffynonellau eraill.

Lleolir Ethiopia i'r de o'r Aifft, ar ochr ddwyreiniol cyfandir yr Affrig, a chyfeirir ati yn salmau 68 ac 87. Mae sôn am y wlad hefyd yng ngweithiau llyfrau proffwydol Eiseia, Eseciel, Daniel, Nahum, Habacuc a Seffaneaia. Yr hyn sy'n rhyfedd yw fod gŵr o'r wlad bell hon wedi teithio mor bell â Jerwsalem, a dangos diddordeb yn ei chrefydd a darllen rhan o'i hysgrythur. Dyfalir bod yr eunuch wedi rhannu ei ffydd â'r frenhines Candace, a'i fod wedi sôn am ei brofiad wrth laweroedd yn ei wlad, fel bod eglwys wedi ei sefydlu yn Ethiopia.

Myfyrdod

I lawer, bydd crefydd yn rhan o hunaniaeth cenedl, ac mae'r Iddewon yn enghraifft amlwg o hynny. Ceir sawl enghraifft debyg o wledydd Mwslemaidd sy'n cosbi eu dinasyddion am droi at grefyddau eraill. Onid yw goddefgarwch crefyddol yn un o nodweddion gorau pob crefydd? Pa fodd y gellir hawlio parch i'n credoau personol ni, heb inni barchu didwylledd ffydd pobl o grefyddau eraill? Nid mater o gystadleuaeth yw unrhyw drafodaeth sy'n ymwneud â chrefydd gymharol, ond ymdrech i ddeall a sylweddoli beth yw profiad pobl eraill o gefndiroedd gwahanol.

Ar y llaw arall, bu'n ffasiynol i ddweud na ddylid cenhadu mewn gwledydd lle mae crefyddau eraill yn amlwg. Dyma'r math o drafodaeth sy'n dweud bod sawl llwybr yn esgyn i gopa'r mynydd. Anhawster amlwg y ddadl hon yw ei bod yn gwadu'r dweud mai Un Duw sydd, a bod y Duw hwnnw

wedi datguddio'i hun ym mherson Iesu Grist, a bod Iesu wedi dod i'r byd i ddatguddio natur a phwrpas y Tad nefol. Iesu ei hun a ddywedodd mai Ef oedd y ffordd, y gwirionedd a'r bywyd, ac nad oes unrhyw fodd arall i ddod at y Tad ond trwyddo Ef (Ioan 14). Derbyn Iesu oedd hanfod hanes y bedyddio yn yr hanes hwn, a beth bynnag a gredai'r eunuch ynghynt, roedd yn awyddus i ddangos ei fod yn derbyn bedydd edifeirwch ac am ymroi i ddilyn Iesu. Gwaith cenhadol yr eglwys yw dweud am Iesu, a mater i'r gwrandawr, beth bynnag ei gred neu ei ddiffyg cred, yw ymateb i'r dystiolaeth sydd gan y cenhadwr i'w rhannu.

Gweddï

Arglwydd Dduw, diolchwn i ti fod Luc wedi clywed yr hanes am Philip a'r eunuch, sy'n ein helpu i sylweddoli bod pobl yn ymholi am y ffydd Gristnogol mewn llefydd cwbl annisgwyl ac o gefndiroedd gwahanol. Dyro i ni'r modd i rannu ein profiad a'n hargyhoeddiad ohonot yn Iesu Grist a'r ewylllys i gefnogi pawb sy'n dystion i Ti. Amen.

Trafod ac ymateb

- Edrychwch ar y darlenniad eto, ac er na wyddom ei enw, sylwch ar yr holl bethau a wyddom am y gŵr o Ethiopia.
- Beth ddigwyddai pe bai hwn yn galw heibio rhyw gyfarfod crefyddol gennym ni? A fyddai croeso iddo?
- Sylwch ar broses Philip wrth rannu'r Newyddion Da am Iesu Grist â'r swyddog o Ethiopia: holi, gwrando, rhannu am Iesu, dechrau gyda chwestiwn yr Ethiopiad a'i arwain i ffydd a bedydd. A yw'r patrwm yn un y gallwn ddysgu ohono?
- Pwy fu'n meithrin y swyddog yn y ffydd wedi iddo gyrraedd adref? Pam nad oedd raid i Philip boeni am hyn?

S4C

Sul, 31ain Ionawr

Oedfa

Dechrau Canu Dechrau Canmol am 11:00yb

Y Parchedig Densil Morgan fydd yn arwain yr Oedfa.

Dechrau Canu Dechrau Canmol nos Sul, am 7:30yh

Yr wythnos yma cawn fwynhau emynau o bob rhan o Gymru yng nghwmni Nia Roberts.

BBC | radio cymru

Caniadaeth y Cysegr

**Sul, 31ain Ionawr
7:30yb a 4:30yb**

Y Parchedig R. Alun Evans sy'n cyflwyno emynau am rhyddid.

Oedfa Radio Cymru

31 Ionawr am 12:00yp
yng ngofal
Derek Rees, Abertawe

**Cyfeiriad Golygydd
Y PEDAIR TUDALEN**

Huw Powell-Davies

pedair.tudalen@gmail.com

**neu Llifor, 60 Ffordd Rhuthun,
Yr Wyddgrug, CH7 1QH**

Anfonwch eich erthyglau, hysbysebion
a.y.y.b. i'r cyfeiriad uchod.

Mae'r Pedair Tudalen Gydenwadol yn cael eu cynnwys yn rhan o bapurau wythnosol tri enwad, sef *Y Goleuad* (Eglwys Bresbyteraidd Cymru), *Seren Cymru* (Undeb Bedyddwyr Cymru) a'r *Tyst* (Undeb yr Annibynwyr Cymraeg).

Cyhoeddi Rhestr Wyllo'r Byd 2021 yn rhoi achos i bryderu a llawenhau

'Mae'r eglwys yn fyw. Mae'r eglwys yn weithgar. Mae'r eglwys yn tyfu. A dyna pam mae'r eglwys yn cael ei herlid.'

Dyna ddywedwyd mewn datganiad diweddar gan y mudiad Open Doors sy'n eiriol ar ran yr eglwys sy'n cael ei herlid ledled y byd. Cyhoeddwyd Rhestr Wyllo'r Byd ganddynt yn ôl eu harfer yng nghynteddodd llywodraeth San Steffan, ond gyda'r rhan fwyaf o'r Aelodau Seneddol yn ymuno'n rhithiol (96 ohonynt) a chyfle i'r cyhoedd i fod yn rhan o'r digwyddiad hefyd dros y we ddydd Llun, 11 Ionawr, eleni.

Adroddwyd bod erlid Cristnogion yn fwy difrifol nag erioed, ac yn effeithio ar niferoedd cynyddol o gredinwyr ledled y byd. Bydd y trosolwg hwn o dueddiadau'r erledigaeth yn helpu i roi gwell dealltwriaeth i chi o'r sefyllfa, a'ch paratoi i weddio dros eich brodyr a'ch chwiorydd yn dilyn Iesu, waeth beth fo'r gnost.

Erledigaeth yn parhau i gynyddu

Am y tro cyntaf ers i Open Doors ddechrau llunio Rhestr Gwyllo'r Byd, mae pob un o'r 50 o wledydd ar frig y rhestr yn sgorio lefelau 'uchel iawn' o erledigaeth. Mae 12 gwlad wedi'u categorioeddio fel rhai sydd â lefelau 'eithafol' o erledigaeth, o'i gymharu ag 11 gwlad y flwyddyn flaenorol. Ac mae 24 gwlad arall yn sgorio lefelau 'uchel iawn' neu 'uchel' o erledigaeth ond nad ydyn nhw hyd yn oed yn cyrraedd y 50 uchaf.



Erlidwyr yn defnyddio Covid-19 fel arf

Mae ymchwil Open Doors yn datgelu i ba raddau y mae Cristnogion yn cael eu gwahardd yn benodol rhag derbyn cymorth Covid-19. Cofnodwyd digwyddiadau ledled Asia ac Affrica – lle mae credinwyr bregus yn cael eu hesgeuluso'n fwriadol gan awdurdodau lleol pan ddsberthir bwyd, gwrthodir PPE hanfodol i nyrsys Cristnogol, ac mae rhai Cristnogion hyd yn oed yn cael eu beio'n ddi-sail am ledaenu'r firws.

Trais yn erbyn Cristnogion yn codi'n ddramatig yn Affrica Is-Sahara

O'r chwe gwlad uchaf ar y rhestr lle mae Cristnogion yn profi'r trais mwyaf eithafol, mae pump yn Affrica Is-Sahara. Gwelodd Nigeria – oedd ymhlith y deg uchaf am y tro cyntaf ers 2015 – y trais mwyaf yn erbyn Cristnogion yn 2020, gyda milwriaethwyr arfog Fulani yn lladd, yn llosgi, yn herwgipio ac yn treisio'n ddidrugaredd. Trais Islamaidd hefyd yw'r rheswm pam y cododd Camerŵn i safle 42 o safle 48, a pham mae Gweriniaeth Ddemocrataidd y Congo (40) a Mozambique (45) yn ymddangos o'r newydd yn y 50 uchaf.

Llywodraethau awdurdodaidd yn cynyddu gwyliadwriaeth a chyfyngiadau

Yn gynyddol, mae gwledydd yn defnyddio dulliau gwyliadwriaeth fodern i fonitro dinasyddion er mwyn eu 'diogelwch eu hunain'. Yn Tsieina (i fyny i safle 17 o safle 23) mae cymysgedd o gyfreithiau newydd a mwy o wyliadwriaeth wedi ei hanfon yn ôl i'r 20 uchaf am y tro cyntaf mewn degawd.

Cenedlaetholdeb crefyddol yn parhau i danio erledigaeth

Ers ymgais 2016 yn erbyn yr Arlywydd Erdogan, mae Twrci (25) wedi dilyn agenda Islamaidd a chenedlaetholgar llawer mwy agored. Mae trais ac anoddefgarwch cynyddol tuag at leiafrifoedd Cristnogol yn golygu ei bod wedi codi 11 safle. Yn India (10), mae cenedlaetholdeb Hindŵaidd cynyddol yn parhau i honni bod 'bod yn Indiaidd yn golygu bod yn Hindŵ'.

Gweld Rhestr Gwyllo'r Byd 2021:
<<https://www.opendoorsuk.org/persecution/world-watch-list/>>

Newyddion da

Sudan

Roedd 2020 yn flwyddyn o newyddion gwych i Gristnogion yn Sudan ac yn achos i foli Duw. Yn gyntaf, ym mis

(parhad ar y dudalen nesaf)



Llun: Map o'r byd yn dangos y 50 gwlad lle mae erledigaeth ar Gristnogion ar ei gwaethaf. Bu farw 4761 o Gristnogion yn fyd-eang oherwydd eu ffydd yn ystod 2020.

Cadeiryddion newydd yn cael eu hethol i Gymdeithas y Cymod



Rhun Wmffre Dafydd sydd wedi ei ethol yn gadeirydd newydd Cymdeithas y Cymod, gyda Laura Karadog yn is-gadeirydd.

Wrth olyn Mererid Hopwood, Rhun Dafydd fydd cadeirydd ieuengaf erioed y Gymdeithas, ac mae am weld y Gymdeithas yn cynyddu proffil heddychiaeth yng Nghymru, yn enwedig ymysg y to ifanc. Yn wreiddiol o Fro Morgannwg, mae Rhun wedi bod yn rhan o bwylgor gwaith y Gymdeithas ers sawl blwyddyn, yn arwain ar yr ochr gyfathrebu a chyhoeddusrwydd.

Yn ôl y gŵr chwech ar hugain mlwydd oed, fe dyfodd ei ymwybyddiaeth am heddychiaeth wrth ymwneud â'r Urdd yn ifanc, ac mae'n grediniol mai drwy addysgu y mae modd creu cymdeithas sy'n credu yn y ffordd ddi-drais. Mae bellach yn byw yng Nghaerdydd ac yn gweithio i gwmni cyfathrebu.

Cafodd Rhun a Laura eu hethol yn ystod cyfarfod blynyddol rhithiol y Gymdeithas ddydd Sadwrn, 9 Ionawr, ac mae'n edrych ymlaen at ddechrau ar ei gyfnod fel cadeirydd, fel mae'n ymhelaethu:

"Mae'n gyfnod hynod o gyffrous i'r

Gymdeithas gydag ymwybyddiaeth o heddychiaeth yn cynyddu ymysg dinasyddion Cymru a thu hwnt. Rwyf yn edrych ymlaen at gydweithio â Laura a gweddill y bwylgor gwaith i greu gweledigaeth a chyfnod newydd i'r Cymod."

Ychwanega Rhun:

"Er ei fod yn gyfnod heriol yn gymdeithasol a gwleidyddol ar hyn o bryd, mae'n gyfle euraidd i'r Gymdeithas weithredu a gwneud gwahaniaeth yng Nghymru. Mae gennym fel cenedl hanes o genhadu dros heddwch, ac rwyf am weld Cymdeithas y Cymod yn parhau i arwain ar heddychiaeth trwy fod yn fudiad sy'n agored ac yn berthnasol i bawb yng Nghymru."

Mae'n flwyddyn i edrych ymlaen wrth i gytundeb i wahardd arfau niwclear, a fydd yn sail i weledigaeth newydd, ddod i rym ar 22 Ionawr. Yn y gorffennol mae Rhun wedi cymryd diddordeb mewn agweddau arbennig o'r gwaith, megis dadfilwrio ein hysgolion, a bydd y mudiad yn parhau i ymgyrchu a gweithredu mewn sawl maes gwahanol yn 2021.

Dyma ddywedodd Laura Karadog, sydd bellach wedi ymgartrefu yn Mhontyberem ac yn edrych ymlaen at ei rôl fel is-gadeirydd:

"Mae hi'n fraint cael ymuno â chriw mor ymroddedig i weithio dros heddwch. Mewn byd sydd yn gallu teimlo gymaint allan o'n rheolaeth, mae Cymdeithas y Cymod yn cynnig ffyrdd adeiladol, a chadarnhaol, i unigolion wneud gwahaniaeth, ac rwy'n edrych ymlaen at gael y cyfle i gyfrannu at hynny."

EGLWYSI CYLCH CARN INGLI

(Bethlehem, Caersalem, Ebeneser, Jabes, Tabor)

Mae'r Gweinidog, y Parchg Alwyn Daniels, bellach wedi ymddeol wedi deugain mlynedd o weinidogaeth ymroddedig a thystiolaeth loyw yn ein cylch a thu hwnt.

Byddwn yn cyflwyno tysteb i ddangos ein gwerthfawrogiad o'i waith a'i wasanaeth ef a Jean, ei briod, pan fydd amgylchiadau'n caniatáu.

Os carech chi gyfrannu, gellir anfon siec, taladwy i "Cyfrif Tabor, Bethlehem, Caersalem a Jabes", at Gwenno Eynon, Glan Gwaun, Pontfaen, Abergwaun, Sir Benfro SA65 9SG, cyn CHWEFROR 28, 2021.

DIOLCH YMLAEN LLAW.

Cyhoeddi Rhestr Wyllo'r Byd 2021 (parhad)

Gorffennaf, cyhoeddodd y llywodraeth drawsnewidiol y byddent yn dwyn i ben y gosb eithaf i bobl sy'n gadael Islam, yn ogystal â diwygiadau eraill a oedd yn diddymu deddfau a oedd yn torri hawliau dynol. Yna, ym mis Medi, cytunodd y llywodraeth i beidio â chydabod Islam fel ei chrefydd wladol – ar ôl 30 mlynedd o gyfraith Islamaidd. Yn fwyaf diweddar, mae arweinwyr crefyddol Cristnogol a Mwslimaidd yn Sudan wedi llofnodi datganiad, gan ymuno i hyrwyddo rhyddid crefyddol.

Mae hwn yn newid rhyfeddol a groesewir yn fawr iawn i Sudan, sy'n disgyn sawl safle yn Rhestr Gwyllo'r Byd (o 7 i 13). Diolch yn fawr am weddio'n ffyddlon dros eich brodyr a'ch chwiorydd yn Sudan am gymaint o flynyddoedd. Mae llawer i'w wneud o hyd i fynd i'r afael â stigma ac erledigaeth gan gymunedau a theuluoedd, ond gwelodd 2020 gam enfawr ymlaen i Sudan.

Sri Lanka

Nid yw Sri Lanka bellach ymhlith 50 Uchaf Rhestr Gwyllo'r Byd, ar ôl disgyn 22 o safleoedd, o rif 30 i rif 52. Mae hynny'n newyddion gwych, ac fe'i croesawyd yn fawr ar ôl bomio'r eglwys mewn modd erchyll adeg y Pasg 2019,

lle cafodd dros 250 o bobl eu lladd. Diolch byth, ni ddigwyddodd dim fel hyn yn Sri Lanka yn 2020.

Cymorth Covid-19

Er bod y pandemig wedi cael ei ddefnyddio i erlid credinwyr a oedd eisoes yn agored i niwed, mae hefyd wedi rhoi miloedd o gyfleoedd i ddangos cariad Iesu. Mae hynny'n cynnwys 283,000 o gredinwyr yn Asia a dderbyniodd fwyd a chymorth Covid-19, a channoedd o filoedd yn Affrica hefyd. Roedd angen dirfawr ar lawer, ar ôl colli eu hincwm oherwydd cyfyngiadau cloi.

Ac mae credinwyr a erlidir wedi gallu dangos cariad Crist i'w cymunedau hefyd. Un o'r straeon mwyaf pwerus oedd stori cymuned Gristnogol yn Sri Lanka a rannodd gymorth Covid-19 hanfodol â'u cymdogion – gan gynnwys y rhai a oedd wedi ymosod arnynt yn gorfforol yn ddiweddar.

Ledled y Byd

Yn anad dim, mae Rhestr Gwyllo'r Byd yn dangos bod yr eglwys yn weithgar ac yn fyw. Mae erledigaeth yn cynyddu – ond dim ond lle mae'r eglwys wrthi'n rhannu'r efengyl ac yn ei byw o ddydd i ddydd y mae hynny'n digwydd.

Y pethau bychain? cymorth cristnogol

Cymorth Cristnogol ac anableddau yn Nepal

Trwy'r Gemau Paralympaidd, fe wyddom i gyd pa mor werthfawr ydi'r cymorth a roddir i bobl â gwahanol anableddau. O dderbyn cymorth, mae bywyd y bobl hyn yn aml yn cael ei drawsnewid. Diolchwn ein bod yn byw mewn gwlad gyfoethog, lle mae'r cymorth hwn ar gael yn gymharol rwydd.

Nid yw mor rhwydd yn rhai o wledydd tlotaf y byd. Ond yn ddiweddar, gyda chefnogaeth partner Cymorth Cristnogol, mae 45 o bobl yn rhanbarth Rasua, Nepal, wedi derbyn y cymorth y maent ei angen – o offer clyw i fraich brosthetig.



Aeth Panchamaya Shrestha, 57 oed, adref yn wen o glust i glust, wrth iddi allu clywed yn iawn am y tro cyntaf ers peth amser. Cafodd offer clyw gan Sustainable Enterprise and Environment Development (SEEDS) – partner Cymorth Cristnogol – ac roedd yn llawen wrth ddiolch iddynt am eu cefnogaeth.



Collodd Ramesh Waiba, 25 oed, ei fraich rai blynyddoedd yn ôl wedi iddo gyffwrdd â gwifren drydan. Rhannodd ei lawenydd â'r tîm gan ddweud, 'Bydd yn fy helpu nawr gyda thasgau pob dydd. Rwy'n gobeithio dysgu sgiliau newydd mewn bywyd.'

O'i gymharu â rhai o raglenni Cymorth Cristnogol ac yn sicr o'i

gymharu â'r cymorth a roddir mewn argyfwng mawr, mae'r cymorth uchod yn ymddangos yn fach iawn. Ni chaiff y math yma o waith fawr o sylw yn y cyfryngau torfol, er enghraifft, ond mae'n waith hollbwysig. Mae'n rhoi urddas i bobl a fyddai fel arall yn byw ar ymylon cymdeithas.

Mae gwaith fel hyn gan bartneriaid Cymorth Cristnogol yn dibynnu ar gyfraniadau hael a chysion ein cefnogwyr. Mae rhoi yn gyson yn neilltuo o bwysig inni, gan ei fod yn sicrhau y gallwn gynllunio'n well o wybod fod arian rheolaidd yn siŵr o'n cyrraedd.

Os hoffech chi wybod mwy am roi yn rheolaidd – bob mis trwy'r banc, er enghraifft – rhwch ganiad i Helen neu Miriam yn ein Swyddfa Genedlaethol. Byddant yn falch iawn o glywed gennych.

Gellir cysylltu ar:

Cymru@cymorth-cristnogol.org
neu ffonio ar: 029 2084 4646



Gwahoddiad i Obaith: Cenhadaeth trwy Weddi a Galarnad

**CYMCDEITHAS
Y BEIBL**

Bydd **Gwahoddiad i Obaith: Cenhadaeth trwy Weddi a Galarnad** yn cael ei gynnal ar **9 Chwefror 2021**, o 10yb tan 11.30yb. Ymunwch â ni a phasiwch y gwahoddiad hwn ymlaen i'ch ffrindiau a'ch cyd-weithwyr. Anogir arweinwyr Cristnogol o bob maes i ddod.

Rydyn ni yng nghanol pandemig hirfaith. Nid yn unig yn y gymdeithas ehangach ond ymhlith arweinwyr eglwysig, mae yna ymdeimlad o ddiflactod ynghylch Covid – a diflactod hefyd ynglŷn â'r aflonyddwch ehangach sy'n effeithio ar ein cymdeithas y mae'r ffocws presennol wedi'i guddio i

raddau. Sut y gelwir arnom i arwain yn y cyd-destun hwn? Mae'n bryd dod at ein gilydd i weddio, myfyrio a gofyn cwestiwn allweddol: beth mae Duw yn ei ddweud wrthym?

Bydd llawer ohonoch efallai wedi mynychu'r Brecwast Gweddi Seneddol Cenedlaethol fis Mehefin diwethaf, a'r weminar wedi hynny ar 'Genhadaeth yn ystod y Cyfnod Clo a Thu Hwnt'. Yn dilyn ymlaen o hynny, rydym yn falch iawn o roi gwybod ichi ein bod yn cynnal gweminar arall ym mis Chwefror lle rydym yn gwahodd yr Eglwys i weddio a galaru dros ein cenhedloedd, wrth inni geisio Duw a

gofyn ble mae ei galon genhadol am ein harwain yn y cyfnod arbennig hwn ar gyfer ein diwylliannau. Ymunwch â ni ar yr adeg arwyddocaol hon.

Dan arweiniad arweinwyr Cristnogol o draddodiadau amrywiol a chylchoedd diwylliannol, byddwn yn treulio amser mewn galarnad, gweddi a myfyrdod, gan ofyn i Dduw beth y mae'n ei wneud a sut y gallwn barneru ag ef mewn ton newydd o genhadaeth ledled y gwledydd hyn. Gobeithiwn felly y byddwch yn gallu ymuno â ni.

Gallwch archebu eich lle am ddim nawr o glicio'r ddolen hon:

<<https://www.eventbrite.co.uk/e/an-invitation-to-hope-mission-through-prayer-and-lament-tickets-129701395365>>

Ffydd... a diwylliant

Mae jig-sos yn bethau rhyfedd. Darlun cyfan, campwaith yn aml, wedi ei chwalu'n deilchion er mwyn i rywun ei roi yn ôl at ei gilydd. Can darn, pum cant, mil a mwy o ddarnau. A'r unig ganllaw ydy'r llun ar y clawr, yn atgof o'r hyn ddylai'r cyfanwaith fod.



Dwi wedi bod yn rhyfeddol o lwcus yn fy mhrofedigaethau agos. Er bod y colledion yn enbyd, mae cyfnod wedi bod i baratoi, i ddygymod, i obeithio; i dorri calon, gobeithio drachefn a dygymod yn y diwedd â'r golled anorfod oedd ar y gorwel. Cael cyfle i ffarwelio,

torri calon a dygymod yn araf eto â'r ffaith fod y darlun wedi newid am byth. Dwi'n gwerthfawrogi nad felly mae hi i bawb.

Dwi'n aml yn meddwl am fywyd fel darlun sydd heb fod yn orffenedig nes bod y person wedi'n gadael ni. Mae'r farwolaeth yn gymaint rhan o'r darlun, o'r ffrâm orffenedig, a rhyw ddarn o'r stori yn aros hyd y munud olaf i'w dweud. Bydd rhai bywydau hir yn ddarluniau mawr. Rhai yn llawn prysurdeb byw a bod, teulu mawr a chydabod eang. Eraill yn brydferth yn eu symrlwydd. Bydd eraill yn llai o ran cwmipas ond yr un mor gywrain, a rhai yn 'miniatures' lleiaf erioed ond eto mor, mor werthfawr. Does dim cymhariaeth rhwng maint a gwerth y gweithiau hyn, gall y lleiaf fod werth cymaint â'r mwyaf. Mor fychan yw'r 'Mona Lisa' o'i chymharu â'r 'Swper Olaf' ond mae cymaint o hanes yn y naill a'r llall.

Ond cyn gynted a bod y darlun yn gyflawn fe'i chwelir. Mae'r chwalfa'n rhan annatod o'r darfod. Cyflwynir y campwaith terfynol i ni'n fil a mwy o ddarnau ac mae disgwyl i ninnau'n ein galar, drwy ein galar, roi'r llun yn ei gilydd o'n cof. Bydd rhai yn dechrau

gyda'r ffrâm a threfnu'r lliwiau a'r patrymau'n bentyrrau, eraill yn dechrau gyda'r darnau rhwyddaf a gadael i'r ffrâm ymfurfio'n araf.

Weithiau bydd rhywun yn lwcus ac yn agor y bocsi i ganfod darnau yn dal i gydio'n ei gilydd. Weithiau, os ydych chi'n lwcus, fe fydd testun y darlun wedi gadael cyfarwyddiadau i chi. Ond dro arall fe fydd y chwalfa'n uffernol. Dim ffrâm orffenedig a dim modd gweld unrhyw lun na phatrwm drwy'r dagrau. Bryd hynny, alla'i ond dychmygu, pa mor araf a phoenus yw ceisio rhoi'r darlun yn ôl. Tra bod rhai'n siŵr o alw heibio a gweld dros eich ysgwydd bod darn yn mynd i'r union fan a'r fan, bydd eraill, heb feddwl efallai, yn taro'r bwrdd ac yn chwalu'r cyfan drachefn a chithau ar lawr yn chwilio am y darnau gwasgareddig.

Ond gan amlaf, fe gyflawnir y jig-so, hyd yn oed os taw'r wên yw'r darn olaf i'w osod yn ei le.

Mae'n anodd dymuno blwyddyn newydd dda eleni, ond gallwn ddymuno bod yn dda yn y flwyddyn newydd a chwilio am bob ffordd posib o helpu eraill i osod darnau'r jig-so yn eu lle neu fynd ar ein gliniau ar lawr i chwilio am y darnau coll.

Arwel Rocet Jones

Gofyn am ohirio oherwydd ein hargyfwng...

Annwyl Olygydd,

Ymddangosodd erthygl yn y Goleuad (Rhagfyr 18fed *Paratoi ar gyfer gweddill y ganrif*) yn dilyn eitem ar Bwrw Golwg (Sul, Tachwedd 29ain) ynglŷn ag uno Seren Cymru a'r Goleuad. Nid oes unrhyw wrthwynebiad i gyd weithio a'r Bedyddwyr, wrth gwrs. Ond ni fu cyfle i fynegi barn nac i godi cwestiwn yn y Goleuad hyd yn oed!

Ni chyfarfu'r Gymanfa Gyffredinol yn 2020, ond cynhaliwyd 'Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol' ar zoom ac ar ddiwedd cyfarfod maith, doedd dim syndod na fu fawr o drafod. Fe wyddom fod trafod wedi digwydd ym Mhwylgor y Pedair Tudalen, yn yr Adran Cyhoeddi ac ym Mwrdd y Gymanfa. Ond nid yw Llais y Gymanfa (4.12.20) yn sôn nad yw'r Annibynwyr yn rhan o'r cynllun. Y mae EBC wedi bod yn gefnogol ers blynyddoedd i greu un papur cydenwadol ond erbyn hyn nid sôn yr ydym am dri (na phedwar) enwad, ond am ddau yn unig – ac y mae hynny'n sefyllfa wahanol.

Deallwn fod y penderfyniad i ddod â fersiwn print Seren Cymru i ben a'i gyhoeddi ar y we yn unig wedi ei wneud gan y Bedyddwyr cyn y cytundeb gyda'r Goleuad. Ond ni

chawsom ni gyfnod o'r ddau fersiwn yn cyd redeg cyn dod i benderfyniad. Daeth y Goleuad mewn print i ben ar ddechrau'r pandemig er i fersiwn papur fod ar gael ar ofyn. Ond i bob pwrpas diflannodd y Goleuad print yn sydyn. Ein pryder mwyaf yma eto yw na fu hanner digon o drafod. Mae *oblygiadau* pell gyrhaeddol i'r penderfyniad.

I ni, sydd wedi bod yn gefnogol iawn ers blynyddoedd i un papur cydenwadol yr ydym, yn nodi tri pheth.

1. Gan fod yr Annibynwyr yn eu Hundeb wedi datgan yn glir nad ydynt am fod yn rhan o bapur cydenwadol wythnosol, rhaid derbyn hynny, er mor drist yw hynny. Fe fyddai un papur cydenwadol anghydfurfiol wedi dathlu a gweithredu ein hundod yng Nghrist. Fe fydd yr Annibynwyr yn lansi'r Tyst ar ei newydd wedd ar Fawrth 1af – yr union ddiwrnod y bydd y Bedyddwyr ac EBC yn lansio eu cyhoeddiad wythnosol newydd hwythau.
2. Mae'r penderfyniad i greu un papur 'cydenwadol' wedi datblygu o broblemau ariannol y Bedyddwyr. Ffactorau ariannol felly sydd wedi ein symud ymlaen at ryweth llai

na'n gobeithion ar y dechrau. Mae cyhoeddi'r Goleuad (a'r Treasury) yn gostus, ond cyn cwtogi ar waith eglwys rhaid edrych ar bob rhan o'n gwariant – o weinyddiad i swyddi ac adeiladau – cyn dod i benderfyniad.

3. Fe fyddem yn fodlon iawn gweld enw Y Goleuad, Y Tyst a Seren Cymru yn diflannu petai yn rhan o weledigaeth fentrus ym maes newyddiadura radical Cymraeg ac Anghydfurfiol. Ond tybed nad ydym yn y penderfyniad hwn yn creu rhaniadau newydd? Fe fyddai papur cydenwadol yn fforwm ac yn gyfrwng ardderchog – boed ar y we neu mewn print – i'n dysgu, ein hysgogi ac i'n cyfeirio ymlaen i'n cenhadaeth a'n cyfrifoldeb fel Cristnogion Cymraeg i'r dyfodol.

Er mwyn ymestyn y drafodaeth – ac o bosib greu cyfle i'r Annibynwyr ystyried eto ganlyniad eu penderfyniad hwythau – yr ydym yn gofyn am ohirio gweithredu'r cytundeb sydd wedi ei wneud – er mwyn ystyriaeth lawnach, weddigar, i'r mater.

**Eric Jones, Glyn Tudwal Jones,
Pryderi Llwyd Jones, John Owen
a John Tudno Williams.**

Dyma gyfarfod hyfryd iawn...

Disgwyl ac adnabod

DARLLEN: Salm 111

GWEDDI

Dduw Sanctaidd a thrugarog, y mae dy ysblander y tu hwnt i'n dychymyg, a'th gariad y tu hwnt i bob mesur. Dangosaist dy ogoniant a'th awdurdod yn dy Fab trwy integriti ei fywyd a'r gwir oleuni yn cartrefu ynddo ef. Diolchwn i ti bod dy awdurdod wedi ei ddatguddio mewn gostyngeddrwydd, trwy hunan-ddarostyngiad y gwas, yn hytrach na'th fod yn gormesu trwy drais. Arglwydd agor ein dychymyg i ni gael trem ar dy gariad aruthrol tuag atom. Iachâ ni oddi wrth bopeth sy'n difetha cyflawnder bywyd. Maddau i ni ein pechodau wrth i ni ymostwng ger gerbron croes ein harglwydd Iesu Grist. Caniatâ hyn drwy dywalltiad newydd a nerthol o'th Ysbryd Glân yn ein plith. Amen.

CYFLWYNIAD

Y mae dwy olygfa i'n drama heddiw. Daw'r gyntaf **ar ddiwedd** gweinidogaeth Moses, gweinidogaeth oedd yn cynnwys oes o wasanaeth maith a chythyrlus. Roedd wedi sefyll yn erbyn llywodraeth Pharo a'i ormes, wedi arwain ei bobl drwy'r Môr Coch, drwy'r anialwch a'i gynni. Roedd wedi dringo'r mynydd i gwrdd â Duw, derbyn y 10 Gorchymyn, wedi eiriol dros ei bobl pan oeddynt wedi bod yn anffyddlon, ac ar brydiau roedd ef ei hun wedi anobeithio a bod yn rhwystredig. Daw ei weinidogaeth i ben cyn cyrraedd gwlad yr addewid. Exodus anghyflawn ydoedd!

Daw'r ail olygfa **ar ddechrau** gweinidogaeth fer Iesu o Nasareth. Bydd ei weinidogaeth yn arwain ymhen tair blynedd at fuddugoliaeth ar groesbren, dros bechod a marwolaeth. Yn ei atgyfodiad bydd ei ogoniant yn cael ei gyhoeddi. A daw ei eiriau wrth droseddwr a ddioddefai yn ei ymyl ar groesbren, 'Heddiw byddi gyda mi ym Mharadwys,' yn addewid o obaith i bob un sy'n clywed ei eiriau.

EMYN 509: O iachawdwriaeth gadarn

DARLLENIAD 1:

Deuteronomium 18:14-22 – Disgwyl

Gwyddai Moses o brofiad ddylanwad 'dewiniaid a hudolwyr' (ad 14). Onid oedd Pharo wedi ei gyfareddu gan swynwyr yr Aifft? A phan geisiodd Moses ei berswadio i ryddhau'r bobl oedd o dan ei ormes mynnodd Pharo galedu ei galon a derbyn cyfarwyddyd hudolwyr ffals. Gwyddai Moses o brofiad bod parodwydd hyd yn oed gan bobl oedd wedi gweld gweithredoedd achubol yr Arglwydd i wrando a chael eu baglu gan eiriau 'proffwydi' charismataidd twyllodrus. Gallai'r gau-broffwydi honni bod eu geiriau 'wedi eu llefaru yn f'enw' (ad 19), meddai'r Arglwydd, ond celwydd ydyw. Rhyfygu a wnânt. Rhyfygu yw coleddu, yn ôl y geiriadur, 'barn neu ymddygiad ymwithgar neu orhyderus, hunanhyder di-sail, hyfrdra, traha, balchder...' (Geiriadur Prifysgol Cymru). Rhyfygu yw 'llefaru yn f'enw air nad wyf fi wedi ei orchymyn,' meddai'r Arglwydd. (ad 20,22) Beth bynnag eu daliadau 'llefaru yn enw duw arall' a wnânt.

Mor barod yr ydym i gredu geiriau'r gwleidydd twyllodrus, yr arweinydd crefyddol sy'n defnyddio dawn ei rethreg a'i grefydda fel cochrl i'n camarwain. Mor barod yr ydym i gredu celwyddau sy'n cael eu rhannu ar wefannau neu ar gyfryngau cymdeithasol. Ac er y bydd amser yn dangos mai celwydd, mai ffals oedd eu balchder rhyfygu, caiff llawer eu clwyfo gan wagedd camarweiniol eu neges. Am hynny, cawn ein rhybuddio i beidio â chredu ffalster. (ad 14)

Er bod rhybudd am beidio â chael ein twyllo gan gau-broffwydi, neu gau-Feseiau o bob math, ar ddiwedd ei oes cynigiodd Moses air o obaith, am broffwyd o apwyntiad Duw. (ad 16) Mewn byd cymysglyd sy'n llawn o leisiau pwerus a byddarol, pob un ohonynt yn cynnig gobaith a ffyniant a chynnydd, hiraethwn ninnau am lais, am wybodaeth, am gadernid ac am awdurdodol eiriau'r nef. Geiriau sy'n fwy na gwagedd a gwynt, sy'n fwy nag adlais o'm dyheadau fy hun, am eiriau sydd â stamp tragwyddoldeb arnynt.

Addewid Duw trwy Moses oedd hyn. 'Bydd yr ARGLWYDD dy Dduw yn codi o blith dy gymrodyr broffwyd fel fi' (ad 15) ... codaf iddynt o blith eu

cymrodyr broffwyd fel ti, a rhof fy ngair yn ei enau, er mwyn iddo fynegi iddynt y cwbl y byddaf yn ei orchymyn iddo. A phwy bynnag fydd heb wrando ar fy ngeiriau, y bydd y proffwyd wedi eu llefaru yn f'enw, bydd yn atebol i mi am hynny. (ad 18-19)

O benodiad dwyfol bydd yr un sy'n dod. Yr 'Arglwydd dy Dduw' fydd 'yn codi' y proffwyd hwn. Bydd y proffwyd disgwyledig yn cludo neges ddwyfol. Bydd 'fy ngair yn ei enau' a bydd yn dwyn datguddiad cyflawn wrth iddo 'fynegi y cwbl.' O blith y genedl, o blith ei bobl, o blith ei gymrodyr byddai'r proffwyd hwn yn codi. Ac am mai o Dduw y deuai'r proffwyd hwn bydd y bobl yn atebol i Dduw am eu hymateb iddo.

DARLLENIAD 2: Marc 1:21-28

Rhyw fore Saboth, yn gynnar yn ei weinidogaeth aeth Iesu i mewn i'r synagog, yn ôl ei arfer. Yno, fel yr oedd Moses wedi ei addo, o blith, ac yng nghanol ei gymrodyr, dechreuodd 'Iesu o Nasareth' lefaru. Gwyddai pawb, hyd yn oed yr ysbrydion aflan, ei gôd post! Ond wrth iddo lefaru adnabu'r ysbrydion aflan ei gymeriad, ei darddiad dwyfol. Cyhoeddasant, 'Mi wn pwy wyt ti – Sanct Duw.' Datganwyd gan dystion annisgwyl ei fod yn datguddio, yn cynrychioli, sancteiddrwydd Duw ei hun. Golyga'r gair 'Sanctaidd,' yr hyn sy'n 'perthyn i Dduw ... yn haeddu addoliad neu barchedig ofn ... o foesoldeb rhagorol...' (GPC). Mewn ffordd ddirgel/cyhoeddus daeth ef, y glân a'r pur, â gair Duw i glyw ei wrandawyr. Gallai'r Ysgrifenyddion drafod yr Ysgrifthurau gyda gwybodaeth ac 'awdurdod' y rhai oedd yn hyddysg ynddynt. Cydnabu pawb bod geiriau Iesu'n dwyn neges 'newydd ag iddi awdurdod.' Yn wir adnabu'r ysbrydion aflan ef gan ofni, 'A wyt ti wedi dod i'n difetha ni.' (ad 27) Nid geiriau i'w trafod ond gwirionedd i arswydo rhagddynt oedd ei eiriau awdurdodol ef.

Ac ym mhob oes, ym mhob gwrandawriad o'i eiriau daw dirgelwch y person dwyfol hwn a gyflawnodd disgwyliad addewid Moses. Dechrau doethineb pob un yw addoli ac ofni'r Arglwydd a ddarparodd Duw.

Os na nodir yn wahanol nid yw barn y cyfranwyr o angenrheidrwydd yn farn y golygydd na'r Gymanfa Gyffredinol.

Anfoner pob gohebiaeth, newyddion, ysgrifau, a.y.y.b. at y Parch. Ddr. R. Watcyn James, Eryl, Capel Bangor, Aberystwyth SY23 3LZ. e-bost: goleuad@ebcpcw.cymru

Cyhoeddwyd gan Eglwys Bresbyteriaid Cymru ac argraffwyd gan Wasg y Bwthyn, Caernarfon.